# Dysgu gan eraill yn yr Wyl Tai Cymdeithasol Ryngwladol

Adroddiad gan Sian Gwenllian



4–6 MEHEFIN 2025
DULYN, IWERDDON

# Cyflwyniad

Ddechrau mis Mehefin 2025, ymunais â chrewyr polisi ac ymarferwyr o bob cwr o'r byd i archwilio'r heriau allweddol sy'n wynebu maes tai a sut y gallwn ymateb orau.

## Argyfwng tai byd-eang

Cefais fy nharo gan yr heriau oedd yn gyffredin. Mae Cymru ymhell o fod ar ei phen ei hun wrth wynebu'r argyfwng tai. Mae profiadau tebyg ledled y byd yn tynnu sylw at argyfwng tai byd-eang. Mae ymatebion mewn gwahanol ddinasoedd, rhanbarthau a gwledydd fwy neu heb yn effeithiol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng.

Gallwn gyflawni mwy drwy gydweithio ac rwy'n croesawu ymdrechion i sefydlu Siarter Byd-eang ar gyfer Cydraddoldeb Tai sy'n cael ei hyrwyddo gan yr Athro Dave Adamson a chydweithwyr yn Awstralia. Edrychaf ymlaen at gyfleoedd pellach i ymgysylltu.

Roedd straeon o Melbourne, Fienna a Winnipeg yn dangos sut mae fforddiadwyedd tai, boed yn dai rhent neu'n dai dan berchnogaeth, wedi codi'n sylweddol, ymhell y tu hwnt i incwm pobl.



*Sian Gwenllian MS with Casey Edwards and Kathryn Robinson from Cwmpas.*

Mae ymyriadau lleol a chenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth yn y ffordd y mae pobl yn profi tueddiadau rhyngwladol. Mae cyfran uchel y tai cymdeithasol yn Fienna wedi gweithredu fel 'clustog', ac rwyf am i Gymru gael yr un peth.

Her gyffredin yw bod y galw yn fwy na'r cyflenwad. Mae angen i ni adeiladu a chaffael mwy o dai fforddiadwy a gallwn ddysgu o sut mae gwahanol wledydd yn cyflawni hyn, o wahanol gymhellion ariannol i bolisïau cynllunio.

Mae cyllid fforddiadwy yn allweddol. Clywais y gwahaniaeth y gall Asiantaeth Cyllid Tai Iwerddon ei wneud gyda mynediad at gyllid llog sefydlog tymor hir Banc Buddsoddi Ewrop. Mae Brexit yn golygu na all Cymru gael mynediad at gronfeydd Ewropeaidd, ond sut gall Cymru greu dewisiadau amgen? Pa wersi allwn ni eu dysgu gan asiantaeth gyllid Iwerddon?

Mae Iwerddon hefyd wedi sefydlu'r Asiantaeth Tai gyda'r diben o ehangu'r cyflenwad tai. Mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o randdeiliaid ac yn gweithredu fel galluogwr. Mae hynny'n cynnwys trwy ddata a mewnwelediadau o ansawdd uchel, arbenigedd a chymorth technegol a chefnogaeth ar gyfer arloesi. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Unnos o dan y Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru. Mae gwersi o Iwerddon

ynghylch sut y gall ddatblygu’n effeithiol fel asiantaeth datblygu a thir genedlaethol, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Mae'r profiad yn Fienna hefyd yn amlygu nad yw’n fater o gyflenwad a galw yn unig. Hyd yn oed pan dyfodd y cyflenwad tai yn Fienna i ddiwallu'r galw, parhaodd prisiau i godi ac roeddent yn sylweddol uwch na'r incwm. Mae angen i lywodraethau ddeall a gweithredu ar ffactorau eraill sy'n gyrru'r argyfwng, yn enwedig y ffaith bod tai'n cael eu trin fel nwydd. Rhaid i bolisi tai drin tai fel nwydd cymdeithasol.

## Dysgu o ymatebion mewn mannau eraill

Mae'r hawl i dai digonol eisoes wedi'i hymgorffori mewn cyfraith ryngwladol o dan Gyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Ond yn llawer rhy aml nid yw’r hawl yn cael ei hadlewyrchu'n ymarferol. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno hawl i dai digonol trwy ddeddfwriaeth Gymreig. Clywais sut roedd deddfwriaeth debyg mewn mannau eraill eisoes yn arwain at welliannau.

Mae Plaid Cymru yn archwilio sut y gallai cyflwyno rhenti teg yng Nghymru fynd i’r afael â fforddiadwyedd yn y sector rhentu. Mae sawl gwlad Ewropeaidd arall eisoes wedi cyflwyno trothwy uchaf ar gyfer rhent. Clywais am y gwahanol ddulliau ar waith yn Nenmarc, Sbaen ac Iwerddon yn ogystal â chynigion cyfredol yn yr Alban. Tanlinellodd cynrychiolwyr o Barcelona y dyletswydd moesol i ddarparu tai fforddiadwy i weithwyr allweddol a’r symudiad teg tuag at ynni glân sy’n gyrru eu gwaith, yn ogystal ag atal aflonyddwch cymdeithasol rhag cynyddu. Rwy’n falch ein bod ni hefyd yn gweithredu yng Nghymru gyda bil ar drwyddedu llety gwyliau tymor byr, a fydd yn cael ei gyflwyno o fewn tymor y Senedd hwn, diolch i’r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

Mae llety gwyliau ar gyfer twristiaeth yn rhan o'r jig-so, ac yn lleihau'r cyflenwad tai i drigolion a gyrru prisiau’n uwch. Mewn ymateb, mae Barcelona cael gwared yn raddol â phob llety rhent tymor byr erbyn 2028. Beth allwn ni ei wneud i reoli heriau tai gwledig tebyg yng Nghymru?

Mae gwneuthurwyr polisi a datblygwyr ledled Ewrop hefyd yn prysuro i ymateb i newid hinsawdd. Fe wnaeth sesiwn Energiesprong, a oedd yn amlinellu pbrosiectau arloesol mewn adnewyddu tai a wneir mewn ffatrioedd yn Ffrainc, yr Almaen a'r DU danlinellu y bydd angen i bolisi yng Nghymru fod yn hyblyg i sicrhau manteision datrysiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn aml, gall cyllid deimlo fel rhwystr nad oes modd ei orchfygu. Ond cefais fy ysbrydoli i glywed sut mae arloesedd mewn cyllid tai yn galluogi ymatebion gwahanol. Os ydym yn canolbwyntio ar nodau clir, gall arbenigwyr ariannol ddatblygu datrysiadau yn aml. Rwy'n awyddus i archwilio sut y gellir addasu cynlluniau ariannu fforddiadwy ar gyfer ôl-osod yn Estonia a Bwlgaria i alluogi mwy o frys wrth ôl-osod yng Nghymru.

## Gall Cymru arwain y gad

Roeddwn i'n falch o weld bod Cymru'n arwain y gad o ran gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Drwy'r Cytundeb Cydweithio, rydym wedi gweld cynnydd o ran mynd i'r afael â heriau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys drwy newid trethi ar ail gartrefi a gwaith y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Cymraeg. Mae cydweithwyr Ewropeaidd yn awyddus i ddysgu o'r gweithredu hwn, yn enwedig i fynd i'r afael â phroblemau tai yn y Gaeltacht yn Iwerddon.

Fe wnaeth drama newydd a gomisiynwyd gan Cwmpas ar gyfer y gynhadledd ddarlunio mai stori am bobl ydi tai gan amlaf. Mae tai yn effeithio'n sylfaenol ar ein perthnasoedd, ein cymunedau a'n cyfleoedd bywyd. Dyma oedd un o'r prosiectau arloesol a ddangosodd sut y gall y celfyddydau nid yn unig adrodd y stori hon, ond arwain at sgyrsiau gwell am ddewisiadau tai yn y dyfodol ar draws gwahanol grwpiau o bobl.



*Sian gydag Amanda Oliver, United Welsh a Dr Jennifer Hoolachan, Prifysgol Caerdydd.*

Mae United Welsh wedi bod yn gweithio gydag eraill i greu gwasanaethau tai a chymorth newydd, arloesol, wedi'u creu gyda ac er lles pobl ifanc . Roedd clywed am eu prosiect Tai Ffres a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl ifanc yn ysbrydoledig. Edrychaf ymlaen at weld y prosiect drosof fi fy hun yng Nghaerdydd.

Dyma dim ond llond llaw o'r enghreifftiau o waith arloesol yng Nghymru a gafodd eu hamlygu.

Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai. Mae gennym lawer i'w ddysgu o'r ffordd y mae gwledydd eraill yn ymateb i heriau tebyg yn fyd-eang. Ond rwyf am sicrhau bod Cymru hefyd yn gyfartal ar y llwyfan rhyngwladol, gan arwain ar ddatrysiadau arloesol gyda chymunedau ledled Cymru.